CORFF LLYWODRAETHU YSGOL ABERCONWY
ADRODDIAD BLYNYDDOL I RIENI: MEHEFIN 2018

Mae'r Corff Llywodraethol yn cynnwys (o 21.06.18):

Cynrychiolwyr AALl: Cngh A Hinchliff, Cngh T James, Cngh S Cotton, Cngh E Leighton-Jones, Mrs B Bignold.
Rhiant Lywodraethwyr: Ms C Ryan, Mrs W Howard, Mr M Barber, Mr P Hughes a Ms K Bond.
Athro Lywodraethwyr: Mrs J Hughes a Mr R Burrows
Cynrychiolydd Staff: Miss J Spencer
Aelodau Cyfetholedig: Mrs P Hart a Mrs H Roberts.

Gellir cysylltu â'r llywodraethwyr drwy ysgrifennu at glerc y llywodraethwyr, Miss L Jones yn yr ysgol.

Cyfarfu'r Corff Llywodraethu fel Corff Llywodraethu Llawn ar 6 achlysur. Cyfarfu'r Pwyllgorau Personél a Chyllid ar 3 achlysur.

Penderfynodd y Corff Llywodraethol ar gyllid, cwricwlwm a phatrwm staffio'r ysgol gan ddefnyddio'r dyraniad cyllid gan ALl Conwy. Atodir y datganiad cyllid. ***Atodiad A.***

Mynychodd aelodau unigol o'r Corff Llywodraethol sesiynau Hyfforddi Llywodraethwyr, gan gynnwys: Deall Data Perfformiad Ysgol, Anghenion Dysgu Ychwanegol, Plant sy'n Derbyn Gofal a Gwaharddiadau, Eithafiaeth a Radicaleiddio a Chynlluniau Datblygu Ysgol.

Adolygodd a mabwysiadodd y Corff Llywodraethu y polisïau canlynol yn ystod 2017/18: Derbyniadau, Rhyddhau ar gyfer Marcio neu Safoni. Personél, Gweithdrefnau ar gyfer Trefnu Ymweliadau Ysgol, ADY, Codi Tâl, Chwythu'r Chwiban, Offeryn Llywodraethu, Presenoldeb Disgyblion, Iechyd a Diogelwch, Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon, Tâl a Gweithio'n Hyblyg.

Categoreiddio Ysgol

Mae'r System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion yn dynodi pa mor dda y mae ysgol yn perfformio o'i chymharu ag ysgolion eraill ar draws Cymru ac yn helpu i nodi'r ysgolion sydd angen y cymorth, cefnogaeth a'r arweiniad mwyaf er mwyn gwella. Bydd y categori cefnogaeth lliw a bennir ar gyfer pob ysgol yn sbarduno rhaglen gefnogaeth bwrpasol sydd wedi'i theilwra ar gyfer yr ysgol.

Seiliwyd y system ar dri cham, gan gymryd i ystyriaeth ansawdd yr arweinyddiaeth, addysgu a'r dysgu yn ein hysgolion.

Cam un – Darperir ystod eang o wybodaeth am berfformiad gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo ysgolion sy'n hunan-werthuso eu gallu i wella mewn perthynas ag addysgu a dysgu. Bydd hefyd yn fan cychwyn trafodaethau rhwng ysgolion a'u hymgynghorydd her consortiwm rhanbarthol ynglŷn â'u perfformiad a meysydd i'w gwella.

Cam dau – Bydd ymgynghorwyr her o gonsortia rhanbarthol yn gwerthuso gallu'r ysgol i wella, gan gymryd i ystyriaeth dystiolaeth am y safonau a gyrhaeddwyd ac ansawdd yr arweinyddiaeth a'r addysgu a dysgu. Byddant hefyd yn defnyddio gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru i oleuo'r gwerthusiad hwn a thrafodaethau gyda'r ysgolion.

Cam tri – Defnyddir canlyniadau cam dau i benderfynu ar gategori cefnogaeth terfynol yr ysgol. Cod lliwiau yw'r categoreiddio terfynol sy'n dangos pa lefel o gefnogaeth y mae'r ysgol ei hangen ac yn sbarduno rhaglen o gefnogaeth, her ac ymyriad wedi'i theilwra ar gyfer yr ysgol honno. Y categorïau o gefnogaeth yw gwyrdd, melyn, melyngoch neu goch (bydd ysgolion yn y categori gwyrdd yn derbyn y gefnogaeth leiaf ac ysgolion yn y categori coch yn derbyn y gefnogaeth fwyaf dwys).

Categori'r ysgol ar hyn o bryd yw :

Gallu i Wella	Categori Cefnogaeth
B	**Melyn**

Presenoldeb yn yr Ysgol

	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18
Presenoldeb	93.3%	94.3%	94.6%	94.2%	94.6%
Absenoldebau awdurdodedig	4.7%	4.7%	4.0%	4.1%	4.0%
Absenoldebau anawdurdodedig	2.0%	1.0%	1.3%	1.7%	1.7%

Crynodeb o'r Arholiadau

Atodir crynodeb o ganlyniadau arholiadau'r ysgol ar gyfer 2017: gweler ***Atodiad B.***

Cwricwlwm yr Ysgol

Rhannwyd ein cwricwlwm ysgol yn 3 cham dros flynyddoedd 11-18 (Bl 7 i 13 y Cwricwlwm Cenedlaethol).
Mae 5 gwers bob diwrnod, yn parhau am 60 munud yr un. Mae 25 gwers mewn wythnos. Mae Cwricwlwm yr Ysgol yn ateb gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac yn ymgorffori polisïau'r Corff Llywodraethu ac Awdurdod Addysg Conwy. Gellir gweld copïau o orchmynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, polisïau'r ysgol a datganiad cwricwlwm Awdurdod Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn yr ysgol.

Cyfnod Allweddol 3 – Blwyddyn 7 i 9

Mae'r cwricwlwm ar gyfer y blynyddoedd hyn yn gyffredin i bob disgybl. Mae'n adeiladu ar ddysgu a wnaed yng Nghyfnod Allweddol 2 mewn ysgolion cynradd partner ac yn datblygu ymhellach yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer astudio yng Nghyfnod Allweddol 4 a thu hwnt.
Mae pob disgybl yn astudio: Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Cymraeg, Dylunio a Thechnoleg, Iaith Dramor Fodern, Celf, Cerddoriaeth, Addysg Gorfforol, Hanes, Daearyddiaeth, Addysg Grefyddol, TGCh ac Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac Iechyd. Ym mlwyddyn 7 mae nifer o bynciau'n cyfuno i ddarparu peth "dysgu seiliedig ar broject" sy'n rhoi'r cyfle i ddisgyblion dysgu o fewn cyd-destun thematig ehangach.

Cyfnod Allweddol 4 – Blwyddyn 10 i 11

Mae pob disgybl yn parhau i ddilyn pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol, sef Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Cymraeg, Addysg Gorfforol, Addysg Grefyddol, Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac Iechyd a'r Fagloriaeth gyfan. Mae disgyblion hefyd yn cael y cyfle i ddewis y cyrsiau y byddant yn eu dilyn ym Mlwyddyn 10 ac 11.

Y Chweched Dosbarth Blwyddyn 12 a 13

Bydd cyfran fawr o ddisgyblion Blwyddyn 11 yn dychwelyd i Ysgol Aberconwy i ddilyn cyrsiau un neu ddwy flynedd. Mae'r mwyafrif yn dilyn cyrsiau sy'n arwain at bedwar pwnc lefel UG. Cynigir ystod eang o gyrsiau, gan gynnwys cyrsiau ar y cyd â darparwyr eraill. Mae LINC Conwy hefyd yn darparu ystod eang o gyrsiau galwedigaethol ac analwedigaethol.

Disgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae'r polisi Cefnogi Dysgu yn ceisio adeiladu ar ddull 'Cynhwysol' o ateb anghenion myfyrwyr. Mae'r strwythurau presennol ar gyfer gwneud hynny yn cynnwys:

- Rhaglen ymyrraeth Cefnogi Dysgu.
- Rhaglen Dyfal Donc ar gyfer datblygu sgiliau Llythrennedd a Rhifedd
- Cynhwysiant Cymdeithasol – Canolfan Cefnogi Myfyrwyr (Hafan)
- Cefnogaeth ddynodedig yn y dosbarth ar draws y cwricwlwm
- Canolfan Aberconwy i Blant â Dyslecsia (ABCD)
- Hwb ASD 'Pontio' yn cynnig 'blwch offer', cofrestru a chlwb cinio.
- 1:1 a chefnogaeth grŵp bach
- Project Ymgysylltu BUD

Gweler y tabl isod am gyfansymiau'r gofrestr AAA ar gyfer 2017 – 2018.

Blwyddyn	GY	GY+	Datganiad	Cyfanswm
7	39	17	1	57
8	21	23	1	45
9	21	14	1	36
10	11	9	1	21
11	12	9	1	22
12	2	0	0	2
13	1	3	0	4
Cyfanswm	107	75	5	187

Y Cydgysylltydd Dysgu Ychwanegol yw Mrs C Hodgson a'r Llywodraethwr a enwyd ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig yw Ms C Ryan.

Disgyblion gydag Anableddau

Cymerir anghenion disgyblion gydag anghenion dysgu neu anabledd penodol i ystyriaeth wrth drefnu a rheoli'r amgylchedd dysgu yn Ysgol Aberconwy. Mae gwahaniaethu o ran cynnwys a dull cyflwyno'r cwricwlwm ar gyfer myfyrwyr a nodwyd yn cael ei roi ar waith fel bo'n briodol.

Mae myfyrwyr gydag anableddau yn gallu cyrraedd pob ardal o'r ysgol, gyda phwyntiau mynediad anabledd yn eu lle. Mae'r adeilad yn cyfateb yn llwyr i'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. Mae cynllun hygyrchedd llawn ar gael gan yr ysgol.

Datganiad ar Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg

Mae Ysgol Aberconwy yn ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith ar draws pob ystod oedran a gallu. Mae'r ysgol yn cydymffurfio â gofynion Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru ac yn cyflwyno rhaglen Cwrs Llawn Cymraeg fel Ail Iaith hyd at ddiwedd CA4.

Y tu allan i'r wers Gymraeg ffurfiol, mae Ysgol Aberconwy yn ceisio sicrhau ethos sy'n cyflawni potensial cyfathrebu drwy gyfrwng Cymraeg llafar ac ysgrifenedig ac yn creu cyfle i bwysleisio treftadaeth Cymru. O ganlyniad, mae datblygu cymuned ysgol ddwyieithog yn flaenoriaeth.

Mae gan ddisgyblion y cyfle i barhau i astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf hyd lefel TGAU. Mae rhestrau o ddisgybl ddysgwyr da/rhugl yn cael eu nodi gan yr adran Gymraeg a'u dosbarthu er mwyn annog pob aelod o'r staff i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol ac anogir staff i gyfarch disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae pob gwasanaeth tŷ yn cynnwys rhywfaint o Gymraeg ac mae'r gwasanaeth Nadolig blynyddol a digwyddiadau cerddorol yn ddwyieithog. Mae'r ysgol gyfan yn canolbwyntio ar iaith a diwylliant Cymru yn ystod wythnos dathlu Dydd Gwyl Dewi, a chynhelir gwasanaethau, gweithgareddau a chystadlaethau.

Mae gwefan yr ysgol ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae pob llythyr at rieni, cylchlythyr, deunydd hyrwyddo ysgol a chynlluniwr disgyblion yn ddwyieithog.

Mae arwyddion a phosteri dwyieithog yn cael eu harddangos o amgylch yr ysgol, e.e. yn y ffreutur, prif fynedfa, cyntedd, llyfrgell ayb ac mae Ymadrodd Cymraeg yr Wythnos yn cael ei arddangos ar sgrîn wybodaeth y disgyblion. Mae ymwelwyr yn cael eu cyfarch drwy'r Gymraeg gan staff y swyddfa.

Manylion am drefniadau sy'n galluogi disgyblion i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau chwaraeon allgwricwlaidd.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod o chwaraeon a gweithgareddau i bob disgybl ar ffurf clybiau amser cinio neu ar ôl ysgol. Mae'r gweithgareddau a gynigir yn cynnwys pêl-rwyd, pêl-droed, badminton, dringo, rygbi, dawnsio, gymnasteg, athletau, criced, tenis bwrdd, traws gwlad, pêl-droed 5 yr ochr (staff a disgyblion), golff, tenis a ioga (staff). Amcan y ddarpariaeth hon yw rhoi'r cyfle i blant gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol am o leiaf 30 munud bob dydd yn ogystal â gwella'u sgiliau a'u gallu ym maes chwaraeon. Mae'n ysgol yn anelu at gyfoethogi addysg y disgyblion drwy gyfrwng ystod o gystadlaethau chwaraeon cwricwlaidd ac allgwricwlaidd. Mae'r ysgol yn cystadlu mewn cystadlaethau Cwpan Cenedlaethol Cymru mewn pêl-droed, rygbi, pêl-rwyd a badminton yn ogystal â chystadlaethau pêl-droed, pêl-rwyd, gymnasteg a nofio yr Urdd. Mae cyfleoedd i ddisgyblion llwyddiannus gynrychioli Ysgolion Cymru, Conwy ac Eryri yng nghynghreiriau a chystadlaethau Conwy. Mae timau'r ysgol yn cystadlu yng Nghonwy ym meysydd pêl-droed (bechgyn a merched), rygbi (bechgyn), pêl-rwyd (merched), gymnasteg (bechgyn a merched), badminton (bechgyn a merched), nofio (bechgyn a merched), traws gwlad (bechgyn a merched), athletau (bechgyn a merched), dawnsio (merched), golff (bechgyn a merched), tenis (bechgyn a merched) a chriced (bechgyn).

Mae Ysgol Aberconwy wedi bod yn llwyddiannus iawn ym maes chwaraeon eleni:

- **Pêl-rwyd** – Pencampwyr Conwy ac Eryri Dan 16 oed Ann Smart
- Merched Dan 14 oed yn bencampwyr Conwy hefyd
- 3 merch dan 14 oed wedi cynrychioli Eryri mewn pêl-rwyd
- 4 merch dan 16 oed wedi cynrychioli Eryri mewn pêl-rwyd
- **Athletau** – 9 myfyriwr yn cynrychioli Conwy ym Mhencampwriaeth Eryri. Bechgyn a Merched dan 14 oed wedi ennill, Merched dan 16 oed yn drydydd.
- **Traws Gwlad** – 9 myfyriwr yn cynrychioli Conwy ym Mhencampwriaethau Eryri. Ceri Watson – Pencampwr Eryri, Macauley Hubbuck, Caitlin Owen a Ceri yn cynrychioli Eryri ym Mhencampwriaethau Cymru.
- **Pêl-droed** – Merched Blwyddyn 7 & 8 rownd gogynderfynol Cwpan Cymru. Mia Rawling, Pêl-droed Cymru dan 15 oed, Sophie Rawling & Erin Doran Pêl-droed Cymru.

- **Gymnasteg** – Amelie Partington – 2il yn y Gystadleuaeth Sirol
- **Naid Uchel** – Bydd Amelie Partington o Flwyddyn 9, Pencampwr Naid Uchel Eryri, yn teithio i Gaerdydd i gynrychioli Eryri ym Mhencampwriaethau Athletau Ysgolion Cymru.
- **Golff** – Joe Williams a Campbell Williams wedi eu dewis i gynrychioli Cymru yng Nghystadleuaeth Golff Agored Cymru
- **Codi Pwysau** – Ben Foggo – Pencampwr Medal Aur Codi Pwysau Prydain, Sam Roberts Arian ym Mhrydain. Ben, Morgan Caulfield a Sam Roberts - yn cynrychioli Llandudno yng Ngemau Cymru, Caerdydd. Sam Roberts Medal Arian ym Mhencampwriaethau Ewrop.
- **Bowlio** – 2 fyfyriwr yn cynrychioli Cymru.

Mae'r ysgol yn gofyn yn rheolaidd am farn myfyrywr ynglŷn â'r ddarpariaeth chwaraeon trwy holi'r Capteiniaid Chwaraeon a'r Llysgenhadon Ifainc ar gyfer Chwaraeon a etholwyd gan y myfyrwyr hynny. Mae Chwaraeon Cymru yn defnyddio Ysgol Aberconwy fel model o ymarfer gorau ar gyfer darpariaethau cwricwlaidd ac allgwricwlaidd, gan nodi yn eu hadroddiad blynyddol "yn wir, mae rhywbeth i bawb yn Ysgol Aberconwy". Mae pedwar myfyriwr 6ed dosbarth wedi derbyn cydnabyddiaeth am eu cefnogaeth barhaus o'r adran Addysg Gorfforol. Derbyniodd Molly Caulfied statws Llysgennad Ifanc Platinwm Cenedlaethol, a derbyniodd Jess Roberts, Callum West a Shannon Deacon wobr statws Aur.

Bwyta'n Iach:

Mae'r ysgol wedi cyflawni Camau 1, 2 a 3 o gynllun Ysgolion Iach Conwy ac yn awr yn gweithio tuag at Gam 4, sef rhan gyntaf y Wobr Ansawdd Genedlaethol. Pasiwyd ein 2 nodwedd gyntaf o gam 4 (Bwyd & Ffitrwydd, Diogelwch), a derbyniwyd cymeradwyaeth frwd gan y Canolwr Ysgolion Iach (gweler yr adroddiad sydd ynghlwm).
Nodwyd bod nifer o feysydd yn yr adran 'Bwyd a Ffitrwydd' yn arwain y sector a rhoddwyd canmoliaeth benodol i'r rhan a gymerwyd gan fyfyriwr yn yr adran Addysg Gorfforol. Dyma ran o'r adroddiad:

"Cryfderau penodol:

- Rhaglen gyfoethogi ar gyfer dulliau iach o fyw
- Y PLC Lles sy'n ystyried manteision ffitrwydd corfforol ac yn cael ei rannu'n ddau grŵp – un i fyfyrwyr ac un i staff.
- Mae'r cyfleusterau awyr agored a'r parthu yn wych ar gyfer annog gweithgareddau corfforol
- Mae'r lefel 2 BTEC ar gyfer pob myfyriwr yn dangos bod yr ysgol yn blaenoriaethu gwella ymwybyddiaeth a gwybodaeth am fanteision ffitrwydd corfforol
- Mae projectau pontio ar gyfer ysgolion cynradd sy'n canolbwyntio ar dulliau iach o fyw yn ffordd wych o baratoi myfyrwyr ar gyfer y cyfleoedd sydd ar gael iddynt yn Ysgol Aberconwy." *(Marina Carter, 2016)*

Mae gan Ysgol Aberconwy Grŵp Gweithredu Maetheg Ysgol (GGMY – SNAG) hirsefydlog a ffyniannus sy'n cynnwys disgyblion o Flwyddyn 7 sy'n symud ymlaen i Flwyddyn 8. Bydd y grŵp GGMY yn cael ei fentora gan fyfyrwyr Blwyddyn 10 sy'n astudio'r cwrs TGAY Bwyd a Maetheg flwyddyn nesaf. Mae'r GGMY yn cynllunio calendr am y flwyddyn er mwyn penderfynu pryd y cynhelir sesiynau blasu yn ffreutur yr ysgol, pa brydau newydd fydd yn cael eu treialu o fwydlen yr ysgol bob mis a pha aelodau o'r GGMY fydd yn coginio. Mae bwydlen yr ysgol yn cydymffurfio'n llwyr â gofynion safonau Maetheg Blas am Oes Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae bwydlenni'n cael eu paratoi'n ofalus i safonau manwl iawn ac mae myfyrwyr yn mwynhau'r ddarpariaeth amrywiol sydd ar gael iddynt.

Mr Rhydian Jones yw'r Cydlynydd Lles ac Ysgolion Iach.

Y Gymuned Leol

Mae'r ysgol yn cydweithio'n helaeth â'r gymuned leol ar y cyd â'n menter 'Cyfeillion Aberconwy'. Mae Swyddog cyswllt yr Heddlu yn ymweld â'r ysgol bob wythnos fel rhan o'r rhaglen ABCI. Maent yn gweithio gyda Blwyddyn 8,9,10 a 11 trwy'r flwyddyn. Mae disgyblion Blwyddyn 7 yn gweithio gyda'r gwasanaethau argyfwng, yn ogystal â'r heddlu trafnidiaeth Prydeinig, gwylwyr y glannau a'r Groes Goch er mwyn deall eu swyddogaethau yn yr ardal leol. Mae disgyblion Blwyddyn 12 ac 13 wedi gweithio gydag Uned Diogelwch ar y Ffyrdd Heddlu Gogledd Cymru, ochr yn ochr â'r gwasanaethau Tân ac Ambiwlans er mwyn gwella safonau Diogelwch ar y Ffordd ymhlith gyrwyr ifainc. Mae'r Ysgol yn croesawu bws Gwasanaeth Ieuenctid Conwy ar iard yr ysgol bob wythnos, fel bod pob disgybl yn ymwybodol o'r hyn mae'r gwasanaeth ieuenctid lleol yn ei ddarparu.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf â chwmnïau lleol ac mae disgyblion yn ymweld â nifer o gysylltiadau newydd mewn meysydd penodol, fel peiriannu cerbydau modur. Mae'r rhaglen profiad gwaith wedi galluogi disgyblion i brofi gwaith mewn lleoliad go iawn a helpu'r ysgol i ddatblygu mwy o gysylltiadau.

Dosbarth Confucius: Mae rhaglen yr ysgol, a ariannwyd gan Lywodraeth China, yn galluogi disgyblion yr ysgol i astudio Mandarin a diwylliant China. Mae Llywodraeth China yn darparu athro. Mae ysgolion cynradd lleol hefyd yn elwa o'r ddarpariaeth.

Bwyta'n Iach:

Mae'r ysgol wedi cyflawni Camau 1,2 a 3 o gynllun Ysgolion Iach Conwy ac yn awr yn gweithio tuag at Gam 4, sef rhan gyntaf y Wobr Ansawdd Genedlaethol.

Mae gan Ysgol Aberconwy Grŵp Gweithredu Maetheg Ysgol (GGMY – SNAG) hirsefydlog a ffyniannus sy'n cynnwys disgyblion o bob Cyfnod Allweddol.

Mae'r GGMY yn cynllunio calendr am y flwyddyn er mwyn penderfynu pryd y cynhelir sesiynau blasu yn ffreutur yr ysgol, pa brydau newydd fydd yn cael eu treialu o fwydlen yr ysgol bob mis a pha aelodau o'r GGMY fydd yn coginio.

Mae bwydlen yr ysgol yn cydymffurfio'n llwyr â gofynion safonau Maetheg Blas am Oes Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae bwydlenni'n cael eu paratoi'n ofalus i safonau manwl iawn ac mae myfyrwyr yn mwynhau'r ddarpariaeth amrywiol sydd ar gael iddynt.

Mr Rhydian Jones yw'r Cydlynydd Ysgolion Iach.

Dyddiadau'r Tymor 2018 – 2019

TYMOR YR HYDREF
2018

***Dyddiau Hyfforddi Staff**	***03/09/2018** ***04/09/2018**
Dechrau Tymor	05/09/2018
Cau am Hanner Tymor	26/10/2018
Agor ar ôl Hanner Tymor	05/11/2018
Diwedd Tymor	21/12/2018
GWYLIAU NADOLIG	

TYMOR Y GWANWYN
2019

***Dyddiau Hyfforddi Staff**	***07/01/2019** ***29/03/2019**
Dechrau Tymor	09/01/2019
Cau am Hanner Tymor	22/02/2019
Agor ar ôl Hanner Tymor	04/03/2019
Diwedd Tymor	12/04/2019
GWYLIAU'R PASG	

TYMOR YR HAF 2019

Dechrau Tymor	29/04/2019
Calan Mai	06/05/2019
Cau am Hanner Tymor	24/05/2019
Agor ar ôl Hanner Tymor	03/06/2019
Diwedd Tymor	19/07/2019
GWYLIAU'R HAF	

Toiledau

Mae gan yr ysgol gyfleusterau toiled eang sy'n cael eu cynnal a'u cadw i safon uchel iawn gan y contractwr Menter Cyllid Preifat. Mae'r lleoliad, sef bloc newydd a ddyluniwyd ar ôl ymgynghori â'r cyngor ysgol, yn cynnig cyfleuster toiled mynediad agored o safon uchel sy'n hawdd ei oruchwylio, ac sy'n boblogaidd iawn gyda'r myfyrwyr.

Crynodeb o Adroddiad Cyllideb 2016-17 & 2017-18

Alldro

	2016-17	2017-18
Costau Staffio	3,068,756	3,243,541
Safle	691,788	637,364
Cludiant	7,989	9,036
Cyflenwadau & Gwasanaethau	619,278	524,900
Cyfanswm Gwariant Net	**4,387,811**	**4,414,841**
Cyfanswm Adnoddau sydd ar gael	**4,408,622**	**4,433,683**
Cronfa wrth gefn a ddygwyd ymlaen	**20,811**	**18,842**

Adnoddau

	2016-17	2017-18
Cronfa wrth gefn a ddygwyd ymlaen	81,481	20,811
Dyraniad cyn 16	3,712,517	3,768,509
Dyraniad ar ôl 16	610,426	586,809
Dyraniad GGA	-	57,487
Cymwysiadau yn y flwyddyn	6,172	4,198
Cyfanswm adnoddau sydd ar gael	**4,408,622**	**4,433,683**
Cyfanswm Gwariant Net	**4,387,811**	**4,414,841**
Cronfa wrth gefn a ddygwyd ymlaen	**20,811**	**18,842**

Perfformiad Ysgol CA4

Canlyniadau'r ysgol mewn cyd-destun rhanbarthol a chenedlaethol

Cyfanswm Myfyrwyr 106	wedi cofrestru ar gyfer o leiaf un cymhwyster	L1	L2	L2+	Sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'i gapio	Sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog
Ysgol 2016/17	100	100	66	54	351	454
Ardal ALl 2016/17	99	96	67	54	351	440
Cymru 2016/17	99	94	67	55	351	459

Cyfanswm Bechgyn 47	wedi cofrestru ar gyfer o leiaf un cymhwyster	L1	L2	L2+	Sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'i gapio	Sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog
Ysgol 2016/17	100	100	64	57	347	447
Ardal ALl 2016/17	99	95	61	51	337	417
Cymru 2016/17	99	93	62	51	338	435

Cyfanswm Merched 59	wedi cofrestru ar gyfer o leiaf un cymhwyster	L1	L2	L2+	Sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'i gapio	Sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog
Ysgol 2016/17	100	100	68	51	354	460
Ardal ALl 2016/17	99	97	73	57	364	463
Cymru 2016/17	100	96	73	59	364	484

Esboniadau / Allwedd

L1 = wedi ennill 5 TGAU gradd A*-G

L2 = wedi ennill 5 TGAU gradd A*-C

L2+ = wedi ennill 5 TGAU gradd A*-C gan gynnwys Saesneg a Mathemateg

CSI = wedi ennill 5 TGAU gradd A*-C gan gynnwys Saesneg, Mathemateg ac un o'r Gwyddorau

Sgôr Pwyntiau Ehangach Cyfartalog = wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio'r 9 canlyniad gorau (h.y. mesur ansawdd yn lle maint)

Pwyntiau Ehangach Cyfartalog – wedi'i gyfrifo o'r holl ganlyniadau

Perfformiad mewn Pynciau Craidd

Holl Fyfyrwyr	Wedi ennill A*-C yn Saesneg	Wedi ennill A*-C ym Mathemateg	Wedi ennill A*-C yng Ngwyddoniaeth	Dangosydd Pynciau Craidd
Ysgol 2016/17	74	57	62	55
Ardal ALl 2016/17	64	62	78	53
Cymru 2016/17	64	62	76	53
Ysgol 15/16/17	69	-	65	-
Ysgol 14/15/16	66	-	70	-

Bechgyn	Wedi ennill A*-C mewn Saesneg	Wedi ennill A*-C mewn Mathemateg	Wedi ennill A*-C mewn Gwyddoniaeth	Dangosydd Pynciau Craidd
Ysgol 2016/17	70	60	64	57
Ardal ALl 2016/17	56	62	75	50
Cymru 2016/17	56	62	73	49
Ysgol 15/16/17	64	-	68	-
Ysgol 14/15/16	58	-	70	-

Merched	Wedi ennill A*-C mewn Saesneg	WEdi ennill A*-C mewn Mathemateg	Wedi ennill A*-C mewn Gwyddoniaeth	Dangosydd Pynciau Craidd
Ysgol 2016/17	76	54	61	53
Ardal ALl 2016/17	71	63	81	56
Cymru 2016/17	72	63	78	57
Ysgol 15/16/17	75	-	63	-
Ysgol 14/15/16	77	-	69	-

Adolygiadau Mewnol: cydweddu perfformiad â'r FFT D

Beth yw FFT D?

Mae Ymddiriedolaeth Teulu Fischer (FFT) yn creu targedau i fyfyrwyr ym mhob pwnc. Dyma'r targedau y mae Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i gyfrifo perfformiad a chategori ysgolion.

Mae'r targedau FFT wedi'u seilio ar asesiadau athrawon CA2 a CA3 ac yn cymryd i ystyriaeth rhai ffactorau economaidd gymdeithasol. Mae targedau FFT yn ddisgwyliadau realistig o'r hyn y dylai'r myfyriwr hwnnw anelu at gyflawni os yw'n performio'r un fath â disgyblion eraill yn y DU o allu tebyg.

Trwy adio targedau D FFT ar gyfer pob myfyriwr mewn grŵp at ei gilydd, gellir creu targed cyffredinol ar gyfer pwnc. Os yw'r pwnc yn cydweddu â'r targed hwn yna maent wedi llwyddo i 'ymestyn' y myfyrwyr hyn i berfformio o fewn y 25% uchaf o bynciau gyda myfyrwyr tebyg, ac felly gall yr adran hawlio'n gyfreithlon eu bod wedi cyflawni'r graddau uchaf y gallai unrhyw un ei ddisgwyl yn rhesymol gyda'r garfan honno o fyfyrwyr.

Pynciau a ychwanegodd werth at ddisgwyliadau FFT

- Celf
- Graffeg Celf
- Addysg Grefyddol
- Seicoleg
- Llenyddiaeth Saesneg
- Cymraeg (2il Iaith)

Pynciau a syrthiodd yn sylweddol fyr o ddisgwyliadau FFT

- Celfyddydau Perfformio
- Addysg Gorfforol
- Graffeg
- Ffiseg
- Cyfryngau
- Daearyddiaeth
- Cemeg

Perfformiad y carfannau sy'n derbyn PYD a'r sawl nad ydynt yn derbyn PYD

Yn 2017:

- Cyflawnodd 100% o fyfyrwyr PYD L1, o'u cymharu â 100% o fyfyrwyr nad oedd yn derbyn PYD. Roedd y differyn yn well na'n Teulu o ysgolion a Chymru gyfan.
- Cyflawnodd 40% o fyfyrwyr PYD L2, o'u cymharu â 70.3% o fyfyrwyr nad oedd yn derbyn PYD. Roedd y differyn yn well na'n Teulu o ysgolion a Chymru gyfan.
- Cyflawnodd 26.7% o fyfyrwyr PYD L2+, o'u cymharu â 58.2% o fyfyrwyr nad oedd yn derbyn PYD. Roedd y differyn yn well na'n Teulu o ysgolion a Chymru gyfan.
- Roedd y Sgôr Pwyntiau Cyfartalog wedi'i Gapio ar gyfer myfyrwyr PYD yn 309.5, o'i gymharu â 358.3 ar gyfer myfyrwyr nad oedd yn derbyn PYD. Roedd y differyn yr well na'n Teulu o ysgolion a Chymru gyfan.
- Cyflawnodd 26.7% o fyfyrwyr PYD DPC, o'u cymharu â 59.3% o fyfyrwyr nad oedd yn derbyn PYD. Roedd y differyn yn well na'n Teulu o ysgolion a Chymru gyfan.

Carfan AAA

Unwaith eto, llwyddodd disgyblion ar Weithredu Ysgol a'r rhai gyda Datganiadau i berfformio yn unol â'u targedau D FFT.

Perfformiad Ysgol CA3 (2017)

Pynciau Craidd L5+ :

Pwnc	Cyflawnwyd	Conwy	Cymru
Saesneg	95	91	90
Mathemateg	96	92	91
Gwyddoniaeth	95	95	94
DPC	92	89	87

Pynciau nad ydynt yn Bynciau Craidd L5+ :

Pwnc	Cyflawnwyd	Conwy	Cymru
Celf	97	94	94
D&T	97	95	93
Daearyddiaeth	97	93	92
Hanes	97	95	92
TG	96	95	94
ITM	91	86	87
Cerddoriaeth	97	96	93
AG	97	96	93
Cymraeg2I	92	83	84

Perfformiad Ysgol CA5

Trothwy Lefel 3

Dyma'r lefel lle mae A2 (Safon Uwch) yn cael ei gyfrifo'n genedlaethol. Mae'r disgrifiad ei hun wedi'i seilio ar nifer y myfyrwyr **17 oed** sydd ar y gofrestr ac sydd wedi ennill 2 gradd A-E mewn 2 bwnc Safon Uwch. Yn Ysgol Aberconwy rydym yn caniatáu i fyfyrwyr na lwyddodd i berfformio i'w llawn botensial ail-sefyll arholiadau ym mlwyddyn 12, gan olygu eu bod dros **18 oed** pan enillant eu cymhwyster. Er bod y nifer o fyfyrwyr yn fach, mae'n cael effaith fawr ar ffigur amlwg (trothwy Lefel 3) Ysgol Aberconwy o'i chymharu ag ysgolion eraill.

CANLYNIADAU

Yn Ysgol Aberconwy llwyddodd 98.3% o fyfyrwyr i gyflawni trothwy Lefel 3**.**

Yn nhermau meincnodi cenedlaethol (Gwerth Ychwanegol) Alps (*Advanced Level Performance System*) enillodd YAC radd 3 am Werth Ychwanegol (25% uchaf yn y DU) am ei pherfformiad Safon Uwch yn 2016/17 a gradd 6 am Werth Ychwanegol (60% uchaf yn y DU) am ei pherfformiad UG yn 2016/17.

Pynciau lle mae'r Perfformiad Gorau

- Celf
- Cemeg
- Llywodraeth & Gwleidyddiaeth
- Hanes
- Mathemateg
- Ffiseg

Pynciau sydd angen sylw

- Seicoleg
- Almaeneg
- Ffrangeg
- Saesneg
- Bioleg

Crynodeb Targedau Ysgol Aberconwy 2018

Cyfnod Allweddol	***Meini Prawf Asesiadau***	Cyflawnwyd 2017	Targed 2017	Targed 2018
CA3	% L5 SAESNEG	95	96	92
	% L5 MATHEMATEG	96	96	97
	% L5 Gwyddoniaeth	95	97	98
	CA3 % mpc (L5% Saesneg, Ma & Gw)	92	94	92
CA4	% disgyblion wedi'u cofrestru ar gyfer o leiaf 1 cymhwyster	100	100	100
	% disgyblion a gyflawnodd trothwy lefel 1	100	100	100
	% disgyblion a gyflawnodd trothwy lefel 2	66	75	75
	% disgyblion a gyflawnodd trothwy lefel 2+	54	60	65
	% disgyblion a gyflawnodd MPC	52	60	-
	Sgôr Pwyntiau Cyfartalog wedi'i Gapio	351	360	375
	Gadael HEB gymhwyster	0	0	0
CA5	% disgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 3	98.3	100	100
	Sgôr Pwyntiau Cyfartalog	660	750	750

Gwybodaeth am Gyrchfannau

Cyrchfannau Blwyddyn 11 (2016-17)

Categori	Nifer	%
Yn parhau mewn addysg llawn amser, yn hyfforddi neu'n dysgu yn y gweithle	97	92.38
Mewn gwaith	8	7.6
NEET	0	0
Anhysbys	0	0

Cyrchfannau Blwyddyn 13 (2016 – 17)

Categori	Nifer	%
Yn parhau mewn addysg llawn amser, yn hyfforddi neu'n dysgu yn y gweithle	53	76.8
Mewn gwaith	15	21.74
NEET	1	1.25
Anhysbys	0	0